# Y.G.G. CWMLLYNFELL

# Polisi Gwrth-fwlian
# Anti-bullying Policy

Medi / September 2025

**Dyddiad y Polisi: Adolygwyd Medi 2025**

**Aelodau'r Staff sy'n Gyfrifol:**

**Mr Alun Sterl - Pennaeth / Person Dynodedig Diogelu.**
**Mrs Karen Hopton - Dirprwy Berson Dynodedig Diogelu.**
**Mrs Cath Owen - Dirprwy Berson Dynodedig Diogelu.**

## Datganiad o Fwriad

Mae'r ysgol yn cydnabod fod bwlio yn fater pwysig ac rydym yn ymdrechu i ddatblygu'r ethos fod bwlio ddim yn cael ei ddioddef. Mae'r ysgol yn cytuno fod:

- Mae hawl gan bob plentyn yr hawl i dyfu i fyny heb drais, ac i gael y cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial, gyda'r hyder y bydd eu hanghenion sylfaenol yn cael ei diwallu.
- Mae gan bawb yr hawl i fod yn rhydd rhag dychryn ac ofn.
- Mae datrysiad ar gael i'r broblem o fwlio ac yn wir mae'n rhaid cael datrysiad i hyn.
- Mae gofyn am help yn arwydd o gryfder nid gwendid.
- Mae gan bob aelod o'n cymuned yr hawl i gael eu clywed ac i gael eu cymryd o ddifri.
- Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i sicrhau nad ydym yn cam-drin, brawychu neu yn bwlio eraill.
- Mae bwlio yn annerbyniol.

## Amcanion y Polisi

Rydym yn cydnabod y gall bwlio ddigwydd ar bob lefel ac yn ceisio sicrhau na fydd unrhyw aelod o gymuned yr ysgol yn destun bwlio, brawychu neu aflonyddu o unrhyw fath, gan unrhyw aelod arall o gymuned yr ysgol. Rydym yn anelu at ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion a staff ac yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd diogel, sicr a chadarnhaol lle gall plant ac oedolion wneud y mwyaf o'u potensial ac yn eu trin gyda pharch a dealltwriaeth.

## Amcanion y Polisi

Trwy ymgynghori â rhanddeiliaid, mae YGG Cwmllynfell wedi cytuno ar yr amcanion canlynol:

- I sicrhau fod gan ein cymuned gyflawn hawl i weld y polisi gwrth-fwlian yma.
- I gynnal a datblygu systemau gwrando effeithiol i blant, rhieni / gofalwyr a staff o fewn Y.G.G. Cwmllynfell.
- I annog yr holl staff i ddelio ag achosion o fwlio, aflonyddu neu ymddygiad amhriodol yn effeithiol ac yn brydlon.
- I roi i'r holl staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymdrin yn briodol ag achosion o fwlio, aflonyddu neu ymddygiad rhywiol amhriodol.

- Sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol a’r un mor werthfawr i holl blant yr ysgol. Bydd hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn teimlo eu bod yn lwyddiant. Mae disgyblion llwyddiannus, hapus yn llai tebygol o gam-ymddwyn a bwlio eraill.
- Annog polisi disgyblaeth sy’n deg a chyson. Mae ymrwymiad pob aelod o staff i’r polisi disgyblaeth yn bwysig. Trwy gadw at y rheolau, byddai awyrgylch o ddiogelwch a sefydlogrwydd yn cael ei greu i bawb.
- I annog goruchwylwyr awr ginio, staff y clwb brecwast, athrawon cyflenwi a gwirfoddolwyr i ymdrin yn effeithiol â, neu i gyfeirio yn ddi-oed, ddigwyddiadau sy'n peri pryder.
- I gyfathrebu gyda rhieni a'r gymuned ysgol ehangach yn effeithiol ar y pwnc o fwlio.
- I sicrhau bod yr holl achosion o fwlio ac ymddygiad rhywiol amhriodol yn cael eu cofnodi a gwneud defnydd priodol o'r wybodaeth, ac os oes angen eu rhannu gyda sefydliadau perthnasol.
- I hybu iechyd a lles emosiynol ar draws y lleoliad ysgol gyfan ac i sicrhau fod holl aelodau ein cymuned yn batrwm ymddwyn i hyn ym mhob sefyllfa.

**<u>Beth yw Bwlio?</u>**

Mae bwlio yn ymgais fwriadol neu'n ymwybodol i frifo, bygwth, ddychrynu neu ddychryn rhywun arall. Gall ddigwydd dros gyfnod byr o amser neu gall barhau am fwy o amser, oni bai ei fod yn cael ei atal. Gellir ei wneud yn ddigywilydd, wyneb yn wyneb neu’n arwahanol. Gall ddigwydd hefyd yn yr amgylchedd digidol. Gall bwlio ddigwydd yn unrhyw le, ond fel arfer mae'n digwydd mewn ardaloedd heb oruchwyliaeth, e.e. toiledau a mannau tawel yn yr ysgol neu'r iard chwarae, i sicrhau na fydd oedolion yn ymwybodol ohono. Gall hefyd ddigwydd o flaen cynulleidfa i bwysleisio grym neu boblogrwydd. Fel arfer, nid yw’r dioddefwr wedi profocio’r bwli. Gall gael ei achosi gan unigolyn neu gan grŵp ac ni fydd y dioddefwr yn teimlo’n ddigon cryf i’w atal. Gall bechgyn a merched fod yn fwlis a dioddefwyr.

Mae yna wahanol fathau o fwlio, gan gynnwys:

- Emosiynol - bod yn anghyfeillgar, eithrio, poenydio, gwawdio, cywilyddio.
- Llafar - galw enwau, pryfocio, gwatwar.
- Corfforol - taro, cicio, gwthio, pinsio, poeri neu unrhyw ffurf dreisgar ac ymosodol eraill o gyswllt corfforol.
- Anuniongyrchol – gweithredoedd slei neu lechwraidd sy’n digwydd y tu ôl i gefn y targed neu roi sïon ar led
- Rhywiol - unrhyw gysylltiad rhywiol corfforol digroeso, amhriodol ac annerbyniol neu sylwadau sy'n cam-drin yn rhywiol.
- cysylltiedig â rhagfarn – bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn e.e. Homoffobig - unrhyw sylwadau digroeso, amhriodol ac annerbyniol gan

ganolbwyntio ar fater rhywioldeb, neu Hiliol - gwatwar hiliol, sylwadau, jôcs ac ystumiau. Gall rhagfarn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig a gall arwain at fwlio oherwydd amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefndir.

- Seiber - Gellir diffinio seiberfwlio fel y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, yn arbennig ffonau symudol a'r rhyngrwyd (yn cynnwys gwefannau rhwydweithiau cymdeithasol, blogiau, e-bost, fideo ac anfon negesau uniongyrchol). Pwrpas seiberfwlio yw i gynhyrfu rhywun yn fwriadol neu ledaenu storïau annymunol am rywun a'u gwahardd o grwpiau cymdeithasol.

**Dydy Bwlio ddim yn ……**

Nid bwlio yw:

- Cwympo mas gyda ffrindiau.
- Galw enwau.
- Dadleuon.
- Chwarae jôcs / triciau ar rywun.

Mae'n rhan bwysig o ddatblygiad plentyn i ddelio â chwaliad cyfeillgarwch, galw enwau o bryd i'w gilydd neu branc plentynnaidd. Mae'r rhain yn sefyllfaoedd y gall unrhyw un wynebu unrhyw bryd yn ystod ein bywydau, ac mae'n hanfodol ein bod yn datblygu sgiliau cymdeithasol i ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall un digwyddiad unigol achosi trawma i ddysgwr a gwneud iddo bryderu y bydd dial yn digwydd neu y gwnaiff y bwlio ddigwydd eto yn y dyfodol. Felly, caiff ymyriadau eu gweithredu yn syth, gan ddefnyddio dulliau arfer adferol, mewn achosion o fwlio neu yn achos unrhyw ymddygiad negyddol unigol arall. Bydd yr ysgol yn ymateb i ddigwyddiadau unigol nad ydynt yn ymddangos yn fan cychwyn bwlio gael eu trin a'u trafod fel ymddygiad anaddas ac byddwn yn mynd i'r afael â hwy yn unol â'r polisi ymddygiad. Fel ysgol, rydym yn gwerthfawrogi y gall pob esiampl o ymddygiad annerbyniol a nodir uchod droi mewn i fwlio os bydd y dysgwr / dioddefwr yn teimlo heb rym i atal hynny a'r weithred honno yn codi ofn. Mewn achosion fel hyn, mae'n debygol y bydd hynny'n croesi'r ffin rhwng cellwair a bwlio.

**Pryd a yw'n bwlio?**

Mae'n achos o fwlio os caiff ei wneud sawl gwaith, neu yn rheolaidd, gyda'r bwriad o achosi niwed, dychryn neu ofn. Mae fel arfer yn ddiachos a bob amser yn adlewyrchu camddefnydd o bŵer. Gall bwlio gael ei wneud gan grŵp neu gan unigolyn a bydd y person sy'n cael ei fwlio yn teimlo na allant ei atal rhag digwydd.

**Adnabod Bwlio**

Gall plentyn ddangos ei fod / bod yn cael ei fwlio gan arwyddion neu ymddygiad penodol. Dylai oedolion ymchwilio os yw plentyn:

- Yn ofn cerdded i neu o'r ysgol ac yn mynnu cael ei gyrru i'r ysgol.
- Newidiadau i'w arfer ymarferol.
- Ddim yn fodlon mynd i'r ysgol.
- Yn mynd yn mewnblyg, bryderus neu'n mynd yn brin o hyder.
- Dechrau atal dweud.
- Chwarae triwant.
- Cynnig neu fygwth hunanladdiad.
- Rhedeg i ffwrdd.
- Llefain ei hunan i gysgu neu cael hunllefau.
- Teimlo'n sâl yn y boreau.
- Ddim yn gwneud yn dda yn ei waith/gwaith ysgol.
- Dod adref gyda dillad neu eiddo wedi eu difrodi.
- Colli eiddo neu arian trwy'r amser.
- Yn cael anafiadau heb esboniad.
- Mynd yn ymosodol, aflonyddgar, neu'n afresymol.
- Bwlio plant eraill neu brodyr / chwiorydd.
- Ddim yn bwyta.
- Yn ofn dweud beth sy'n bod.
- Yn rhoi esgusodion annhebygol ar gyfer unrhyw un o'r uchod.
- Yn amharod i ddefnyddio'r rhyngrwyd neu ffôn symudol.
- Yn nerfus pan mae'n derbyn neges seiber.

Gall yr arwyddion yma ddangos problemau eraill, ond dylid ystyried y posibilrwydd o fwlian a dylai bob amser gael ei ymchwilio.

**Arferion a Gweithdrefnau**

**A. Atal Bwlio (gan gynnwys seiberfwlio)**

Y ffordd orau i atal bwlio yw creu awyrgylch lle gallant siarad yn agored am fwlio, mae oedolion yn darparu patrwm ymddwyn di-fwlio a bod côd ymddygiad yn cael ei gytuno a'i dderbyn gan bawb. Mae'n bwysig bod disgyblion yn cael eu haddysgu ynglyn â sut i gadw eu hunain yn ddiogel rhag fwlio a seiberfwlio a sut i anabod arwyddion bwlio a seiberfwlio. Mae ysgol hefyd wedi sefydlu'r gweithgareddau canlynol:

- Disgyblion yn cael eu hatgoffa'n dymhorol ynglyn â sut i adnabod bwlio a sut i gyfeirio bwlio;

- Sicrhau bod modiwlau gwrth-fwlio yn cael eu cynnwys yn y rhaglen ABCh;
- Trefnu amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol i godi ymhellach ymwybyddiaeth ar gyfer wythnos gwrth-fwlio;
- Gwahodd yr NSPCC i'r ysgol i siarad am fwlio;
- Sicrhau bod y Swyddog Cyswllt Ysgolion yn gweithredu cyfres o wersi ar wrth-fwlio;  Cynllunio o leiaf un gwasanaeth ysgol gyfan ar wrth-fwlio pob tymor.

Mae pawb sy'n ymwneud â bywyd YGG Cwmllynfell yn cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo dull gwrth-fwlio cyffredin. Drwy'r broses ymgynghori, mae pob randdeiliaid wedi cytuno i:

- Bod yn gefnogol i'w gilydd.
- Darparu patrwm ymddwyn bositif.
- Trosglwyddo negeseuon clir o'u anghymeradwyaeth o bob math o ymddygiad annerbyniol.
- Addysgu disgyblion ynglyn â diffiniad pob math o fwlio, gan gynnwys seiberfwlio.
- Bod yn glir fod pawb yn dilyn rheolau Y.G.G. Cwmllynfell.
- Bod yn rhan o ddatblygu polisi gwrth-fwlio a chefnogi arferion gwrth-fwlio.

**<u>Pennaeth</u>**

Cyfrifoldeb **Mr Alun Sterl** yw i weithredu'r polisi yn yr ysgol ac i sicrhau fod y staff i gyd yn dilyn yr un gweithdrefnau. Bydd Mr Sterl hefyd yn sicrhau bod aelod newydd o'r staff yn derbyn hyfforddiant addas a bod bwlio yn gael ei drafod yn agored gyda'r disgyblion, mewn achlysur fel gwasanaethau ysgol gyfan.

**<u>Staff</u>**

Mae'r holl staff ar flaen y gad wrth reoli ymddygiad a chefnogi ymdeimlad lles y plant. Felly bydd pob aelod o'r staff yn:

- Darparu'r plant gyda fframwaith o ymddygiad/ siartr dosbarth.
- Clodi a gwobrwyo ar goedd achosion o garedigrwydd a chyfeillgarwch tuag at eraill.
- Hyrwyddo dysg a pharch cydweithredol, goddefgarwch ac ystyriaeth i eraill.
- Pwysleisio ac yn ymddwyn mewn modd parchus a gofalgar i'r disgyblion a chydweithwyr, i osod naws da a helpu i greu awyrgylch bositif.
- Codi ymwybyddiaeth o fwlio trwy weithgareddau cwricwlaidd bob dydd, megis straeon, amser cylch, chwarae rôl, trafodaeth a chefnogaeth cyfoedion.
- Gwneud yn siŵr bod disgyblion yn cael eu goruchwylio ar bob adeg ar yr iard chwarae, e.e.

drwy symud o gwmpas a pheidio â chaniatáu, i raddau helaeth, ardaloedd i fod heb oruchwyliaeth.

- Bod yn wyliadwrus am arwyddion o fwlio.
- Trin bob arwydd o fwlio ac ymddygiad anaddas / annerbyniol o ddifri.
- Ymchwilio holl adroddiadau o fwlio a dilyn strategaethau addas ar gyfer ymyrraeth.
- Rhoi gwybodaeth i'r Pennaeth a chadw cofnodion o'r digwyddiadau, yn enwedig mewn achos o fwlio difrifol.
- Cadw'r corff llywodraethol yn wybodus ynglŷn â materion rheoli ymddygiad (trwy'r Pennaeth).

**Llywodraethwyr**

Mae gan y llywodraethwyr ddyletswydd i:

- Fod yn wybodus o faterion yn ymwneud a gwrdd-fwlio.
- Monitro yn rheolaidd adroddiadau digwyddiadau a'r camau a gymerwyd.
- I gyfrannu at a bod yn ymwybodol o gynnwys ac effeithiolrwydd y polisi yma.
- Nodi un llywodraethwr i arwain ar gwrth-fwlio o fewn arweinyddiaeth yr ysgol.
- Ymateb i unrhyw ddymuniad gan riant i ymchwilio digwyddiad o fwlio.

**Rhieni / Gofalwyr**

Mewn achos amheuaeth o fwlio, dylai rhieni ofyn am apwyntiad gydag athro/athrawes y plentyn yn y lle cyntaf, (trwy glerc yr ysgol). Wrth wneud apwyntiad dylai'r rhieni ddweud os ydy'r mater yn un brys neu beidio. Mae'n arferol i naill ai'r Pennaeth fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r fath. Os yw'r gŵyn yn erbyn aelod o staff, mae'n bwysig fod yr apwyntiad yn cael ei wneud gyda'r Pennaeth ac **nid** yr aelod o staff dan sylw. Os nad yw rhieni / gofalwyr yn teimlo bod yr ysgol wedi delio â'u pryderon yn ddigon da, dylent gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr i drafod y pryderon. Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn delio â hyn, yn unol â pholisi cwynion yr ysgol.

Mae pamffled ar gael i rieni ar faterion bwlio, sy'n rhoi strategaethau cyngor a chefnogaeth.

**Disgyblion**

Mae YGG Cwmllynfell yn parchu hawliau'r plentyn, ac atgoffir disgyblion yn gyson am eu hawliau. Gallent siarad yn syth gydag unrhyw aelod o staff, dysgu neu gynorthwyol, yn ogystal â theulu a ffrindiau am ddigwyddiadau o fwlio.

Mae pamffled a phoster addas i ddisgyblion ar gael, sydd yn nodi strategaethau i ddisgyblion fabwysiadu a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r pamffledi a phosteri wedi cael eu dylunio gan y disgyblion eu hunain ac mae'r disgyblion hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi gwrth-fwlian.

## Ymateb i Ddigwyddiad Penodol

### Cofnodi

Bydd digwyddiadau o fwlio, aflonyddu, brawychu ac ymddygiad amhriodol o natur rywiol, hiliol neu homoffobig yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio ein ffurflen cofnodi digwyddiadau o fwlian neu fwlian honedig. Bydd **Mr Alun Sterl** neu **Mrs Karen Hopton** yn gyfrifol am sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi yn gywir ar ein cofnod digwyddiadau mewnol a My Concern. Bydd y digwyddiad yn cael ei hymchwilio ac yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen drwy gydol yr ymchwiliad.

Bydd rhieni pob plentyn dan sylw yn cael gwybod am yr hyn sydd wedi digwydd, a sut y cafodd ei drin. Bydd yr holl drafodaethau a chamau gweithredu sy'n ymwneud â'r digwyddiad / ymchwiliad yn cael eu dogfennu a'u hychwanegu at y log digwyddiad.

### Delio gyda'r Digwyddiad

Pryd bynnag fydd digwyddiad o fwlio yn cael ei ddarganfod, bydd yr ysgol yn mynd drwy nifer o gamau. Bydd union natur pob cam yn cael ei addasu ar gyfer natur a difrifoldeb y digwyddiad, ac ymateb y rhai dan sylw

1. Mae angen i gymuned yr ysgol i fod yn ymwybodol pan fydd digwyddiad o fwlio wedi dod i sylw'r ysgol, gan gynnwys wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno, mae wedi cael ei gymryd o ddifri a chanlyniad wedi ei weithredu. Bydd digwyddiadau o fwlian ac ymddygiad anaddas oddi allan i'r ysgol hefyd yn cael eu cymryd o ddifri, ac bydd yr ysgol yn trafod y digwyddiad gyda phawb yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Bydd yr ysgol yn cefnogi pawb sydd yn ymglymedig wrth:

   - Siarad drwy'r digwyddiad gyda phawb sydd yn ymglymedig.
   - Cefnogi'r person sydd wedi cael i fwlio i fynegi ei teimladau.
   - Cefnogi'r person sydd wedi dangos ymddygiad o fwlio i fynegi ei t/deimladau ac atgyfnerthu barn yr ysgol fod yr ymddygiad yna yn annerbyniol.
   - Trafod pa rheol(au) sydd wedi cael ei dorri/eu torri.
   - Trafod strategaethau i'w wneud yn iawn.
   - Ffrindiau buarth / cefnogaeth cyfoedion.
   - Amser cylch dosbarth.
   - Gwasanaethau.
   - Monitro sefyllfa.

2. Fe fydd yr holl fesurau yn unol â pholisi ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol, a gallent gynnwys:

   - Esboniad pam mae'r ymddygiad amhriodol yn annerbyniol.
   - Cynigion i atgyweirio perthnasau difrodedig.

- Amser i ffwrdd o weithgaredd penodol (efallai hefyd cynnwys amser egwyl neu amser cinio).
- Cyfarfod rhwng staff, rhieni a’r plentyn.
- Cynllun cymorth ymddygiad.
- Gwahardd cyfnod penodol neu mewn achosion eithafol gwaharddiad parhaol.

  Fydd yr ysgol yn ystyried pob achos bob yn un a fyddant yn ystyried pa weithred fydd yn fwy addas ym mhob achos.

**Proses Ymgynghori**

Mae'r polisi hwn o ganlyniad i broses o ymgynghori gyda'r grwpiau canlynol o bob rhan o'n cymuned:

- Disgyblion;
- Pob staff dysgu a chynorthwywyr dosbarth;
- Grŵp bach o rieni;
- Aelodau o’r bwrdd llywodraethol.

Trwy ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn, mae YGG Cwmllynfell yn ffyddiog y gall pob disgybl, rhieni / gofalwyr a staff ddisgwyl:

- Teimlo’n hyderus fod popeth yn cael ei wneud i wneud amgylchedd YGG Cwmllynfell yn un diogel a chadarn.
- Gwybod pwy allant gysylltu â nhw os oes ganddynt unrhyw bryderon am fwlio neu ymddygiad rhywiol amhriodol, hiliol neu homoffobig.
- Teimlo eu bod yn cael cefnogaeth wrth ddweud am ddigwyddiadau o fwlio neu ymddygiad amhriodol.
- Cael eu cysuro y bydd y camau yn cael eu cymryd yn erbyn achosion o fwlio neu ymddygiad amhriodol.

**Hygyrchedd / Cyfle Cyfartal**

Mae’r ysgol hon yn ysgol sy’n Parchu Hawliau (UNICEF) ac mae ein rôl ni yw sicrhau bod pob plentyn yn gwybod am eu hawliau. Yr hawliau yma yw’r hawliau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus. Mae ein polisi hygyrchedd a chyfleoedd cyfartal hefyd yn annog disgyblion, staff, rhieni ac ymwelwyr heb ystyried hil, anabledd neu ryw gadarnhaol i ddod yn aelodau gweithgar o gymuned yr ysgol. Ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw unigolyn wrth i ni ymchwilio honiadau neu ddrwgdybiaeth o ddigwyddiadau bwlio yn yr ysgol hon.

**Dyddiad Adolygiad**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu’n flynyddol **(Medi 2026).** Fodd bynnag, gall hefyd gael ei adolygu a'i ddiwygio, mewn ymgynghoriad â'r holl ran ddeiliaid, yng ngoleuni digwyddiadau neu brofiad. Roedd rhanddeiliaid y polisi hwn yn blant a phobl ifanc, staff, rhieni / gofalwyr, llywodraethwyr ac unrhyw sefydliadau eraill sy'n ymwneud â bywyd YGG Cwmllynfell.

**Date of Policy: September 2025**

**Member(s) of Staff Responsible:**

| | |
|---|---|
| **Mr Alun Sterl -** | **Headteacher / Designated Safeguarding Person** |
| **Mrs Karen Hopton -** | **Deputy Designated Safeguarding Person** |
| **Mrs Cath Owen -** | **Deputy Designated Safeguarding Person** |

**Statement of Intent**

This school acknowledges that bullying is an important matter and strives to develop an ethos where bullying is not tolerated. This school is in agreement that:

- All children have the right to grow up without violence and to be given the opportunity to develop to their fullest potential, with the confidence that their basic needs will be met.
- Everyone has the right to be free from intimidation and fear.
- Bullying is a problem to which solutions can and must be found.
- Seeking help is a sign of strength not weakness.
- All members of our community have the right to be listened to and to be taken seriously.
- We all have a responsibility to ensure that we do not abuse, intimidate or bully others.
- Bullying is unacceptable.

**Aims of Policy**

We acknowledge that bullying can take place at all levels and aim to ensure that no member of the school community is subject to bullying, intimidation or harassment of any kind, by any other member of the school community. We aim to safeguard and promote the welfare of pupils and staff alike and endeavour to provide a safe, secure and positive environment in which children and adults can maximise their potential and be treated with respect and understanding.

**Objectives of Policy**

In consultation with all stakeholders, YGG Cwmllynfell has agreed the following objectives:

- To ensure our whole community has access to this anti-bullying policy.
- To maintain and develop effective listening systems for children, parents/ carers and staff within YGG Cwmllynfell.

- To encourage all staff to deal with incidents of bullying, harassment or inappropriate behaviour effectively and promptly.
- To equip all staff with the skills and information necessary to deal appropriately with incidents of bullying, harassment or inappropriate sexual behaviour.
- Ensure that the curriculum is relevant and of value to all pupils at the school. This will ensure that all pupils feel that they are a success. Successful, happy pupils are less likely to misbehave and bully others.
- Encourage fair and consistent discipline. It is important that all members of staff are committed to the discipline policy. By adhering to the rules, it is possible to create a safe and secure atmosphere for everyone.
- To encourage midday supervisors, breakfast club staff, supply teachers and volunteers to deal effectively with, or promptly refer incidents causing concern.
- To communicate with parents and the wider school community effectively on the subject of bullying.
- To ensure that all incidents of bullying and inappropriate sexual behaviour are recorded and appropriate use is made of the information, if necessary, sharing it with relevant organisations.
- To promote emotional health and wellbeing across the whole school setting and for all members of our community to role-model this in all situations.

**What is Bullying?**

Bullying is a deliberate or conscious attempt to hurt, threaten, intimidate or scare somebody else. It can happen over a short period of time, or it can continue for longer, unless it is stopped. It can be done blatantly, face-to-face, or discretely. Bullying can also occur in the digital environment. Bullying can occur anywhere, but it usually takes place in unsupervised areas e.g. toilets and quiet areas within the school or playground. Boys and girls can be bullies and victims. It is usually unprovoked and always reflects an abuse of power. Bullying may be carried out by a group or by an individual and the person being bullied will feel unable to stop it happening. Different forms of bullying may include:

- **Emotional** – being unfriendly, excluding, tormenting, ridicule, humiliation.
- **Verbal** – name-calling, teasing, mocking.
- **Physical** – hitting, kicking, pushing, pinching, spitting or any other violent and aggressive form of physical contact.
- **Indirect** – sly or underhand actions carried out behind the target’s back or rumour spreading.
- **Sexual** – any unwanted, inappropriate and unacceptable physical sexual contact or sexually abusive comments.
- **Prejudice-related** – bullying a learner or group of learners because of prejudice e.g.

Homophobic – any unwanted, inappropriate and unacceptable comments focussing on the issue of sexuality, or racial – racial taunts, comments, jokes and gestures. This list can lead to bullying for a variety of other reasons as well, including social status and background.

- **Cyber-bullying** – the use of ICT, especially mobile phones and the Internet (including websites, social media, blogs, e-mail, videos and direct messages).

  Cyber bullies aim to intentionally intimidate or spread malicious stories and exclude individuals from social groups.

**Bullying is not ……**

Bullying is not the odd occasion of:

- Falling out with friends.
- A one-off fight.
- Name-calling (insults and banter).
- Arguments or disagreements.

  Jokes/ tricks played on someone.

It is an important part of a child's development to deal with friendship breakdown, the odd name calling or childish prank. These are situations that we may find ourselves facing at some time during our lives, and it is vital that we develop the social skills to deal with such situations. However, we recognise that a one-off incident can leave a learner traumatised and nervous of future recurrence. Therefore, intervention at YGG Cwmllynfell will be immediate, via restorative practice methods, whether it is bullying or any other one-off negative behaviour. One off incidents will be handled as inappropriate behaviour under the school's behaviour policy. As a school, we fully appreciate that every example of behaviour listed above may turn into bullying if a learner feels powerless to stop the behaviour and is made fearful by the act. In these cases, the border between one-off incidents and bullying is likely to be crossed.

**Identifying Bullying**

A child may indicate that he/ she is being bullied by certain signs or behaviour. Adults should investigate if a child:

- Is frightened of walking to or from school and begs to be driven to school.
- Changes usual routine.
- Is unwilling to go to school.
- Becomes withdrawn, anxious or lacking in confidence.

- Starts stammering.
- Plays truant.
- Attempts or threatens suicide.
- Runs away.
- Cries himself / herself to sleep or has nightmares.
- Feels ill in the morning.
- Begins to do poorly in school work.
- Comes home with damaged clothes or belongings.
- Continuously loses belongings or money.
- Has unexplained injuries.
- Becomes aggressive, disruptive or unreasonable.
- Is bullying other children or siblings.
- Stops eating.
- Is frightened to say what's wrong.
- Gives improbable excuses for any of the above.
- Is reluctant to use internet or mobile phone.  Is nervous when cyber message is received.

These signs and behaviours could indicate other problems, but bullying should be considered a possibility and should always be investigated.

**<u>Practice and Procedures</u>**

**<u>Preventing Bullying (including cyber-bullying)</u>**

Our approach to preventing bullying is to create an atmosphere in which bullying is openly talked about, adults provide non-bullying role-models and an agreed code of behaviour is accepted by all.
Pupils are regularly given opportunities to discuss how to keep themselves safe from bullying and cyber-bullying and how to identify bullying and cyber-bullying. The school has also set up and maintains the following measures:

- Termly reminders on how to recognise bullying and how to report bullying;
- Ensure that anti-bullying modules are included in our PSE programme and curriculum.
- Ensure that plenty of additional and awareness-raising activities are organised for anti-bullying week;
- Invite the NSPCC into school to talk about bullying;
- Ensure that lessons on anti-bullying are implemented by South Wales Police Schools Liaison Officer;
- Ensure that at least one assembly story every term is dedicated to anti-bullying.

Everyone involved in the life of YGG Cwmllynfell takes responsibility for promoting a common antibullying approach. Through the consultation process, all stakeholders have agreed to:

- Be supportive of each other.
- Provide positive role-models.
- Convey clear messages of disapproval of all types of unacceptable behaviour.
- Educate pupils on the definition of all types of bullying, including cyber-bullying.
- Be clear that we all follow the School Charter of YGG Cwmllynfell.
- Be involved in the development of the anti-bullying policy and support anti-bullying practice.

**<u>Headteacher</u>**

It is the responsibility of **Mr Alun Sterl** to implement the policy in school and to ensure that all staff follows the same procedures. Mr Sterl will also ensure that new staff receives suitable training and that bullying is talked about openly with pupils, on occasions such as whole school assemblies.

**<u>Staff</u>**

All staff are at the forefront of behaviour management and supporting children's sense of wellbeing. Therefore, all staff will:

- Provide children with a framework of behaviour/ class charter.
- Openly praise and reward acts of kindness and friendliness towards others, at all times.
- Promote co-operative learning and respect, tolerance and consideration for others.
- Emphasise and behave in a respectful and caring manner to pupils and colleagues, to set a good tone and help create a positive atmosphere.
- Raise awareness of bullying through everyday curricular activities such as, stories, circle time, role-play, discussions and peer support.
- Make sure that pupils are supervised at all times on the playground e.g. by moving around and not allowing areas to become largely unsupervised.
- Be vigilant for any signs of bullying.
- Treat all bullying and inappropriate / unacceptable behaviour seriously.

  Investigate all reports of bullying and inappropriate / unacceptable behaviour and follow suitable strategies for intervention, beginning with restorative practice involving all parties concerned.

- Pass on information to the Headteacher and keep a record of incidents, especially in the case of serious inappropriate behaviour and bullying.
- Keep the governing body well informed regarding issues concerning behaviour management (via Headteacher).

**Governors**

Governors have a duty to:

- Be fully informed on matters concerning anti-bullying.
- Regularly monitor incident reports and actions to be taken
- To contribute to and have a knowledge of the contents and effectiveness of this policy.
- Identify one governor to lead on anti-bullying within the school leadership.
- Respond to any request by a parent to investigate a report of bullying.

**Parents/ Carers**

In the case of suspected bullying, parents should seek an appointment with the child's teacher in the first instance, (through the school clerk). When making an appointment, parents should state whether or not the matter is urgent. It is usual for either the Headteacher or Senior Teacher to be present in such meetings. If the complaint is against a member of staff, it is important that the appointment is made with the Headteacher and **not** the member of staff in question. If a parent or carer feels that their concern has not been dealt with appropriately or has not been taken seriously, they should take their concern to the Chair of Governors, who will begin an investigation, in line with the school's complaints procedures.

A leaflet is available for parents on bullying matters, which gives advice and support strategies.

**Pupils**

YGG Cwmllynfell is a UNICEF rights respecting school, and all pupils are regularly reminded of their rights and that they can talk directly with members of staff, teaching and non-teaching, as well as family and friends in order to report incidents of bullying.

A "pupil-friendly" leaflet and poster is be available, which lists strategies for pupils to adopt and the support available to them. All anti-bullying leaflets and posters are designed by the pupils themselves and pupils are involved in the development and implementation of the policy itself.

## Reacting to a Specific Incident

## Recording

Incidents of bullying, harassment, intimidation and inappropriate behaviour will always be recorded by the school via our incidents of bullying and / or alleged bullying forms. **Mr Alun Sterl** or **Mrs Karen Hopton** will take responsibility for ensuring that the incident is then properly recorded via our incident log and My Concern. The incident will then be investigated and updated as necessary throughout the investigation.

Parents of all children involved will be informed of what has happened, and how it has been dealt with. All discussions and actions relating to the incident / investigation will be documented and added to the incident log.

## Dealing with an Incident

Whenever a bullying incident is discovered, the school will go through a number of steps. The exact nature of each step will be adapted to suit the nature and severity of the incident, and the response of those involved.

The school community need to be made aware that when a bullying incident has come to the attention of the school, including the journey to and from school, it has been taken seriously, and action has resulted. Incidents of bullying and inappropriate behaviour that occur outside school will also be taken seriously and incidents will be discussed with all parties involved. School will still adopt a restorative approach to incidents that have occurred outside school. The school will support all involved by:

- Talking the incident through with all parties involved.
- Supporting the person who has been bullied to express their feelings.
- Supporting the person who has been displaying bullying behaviour to express their feelings about their behaviour and reinforce the school's view that behaviour is unacceptable.
- Discussing which elements of the school behaviour charter have been broken.
- Discussing strategies for making amends.
- Playground pals / peer support.
- Classroom circle time.
- Assemblies.
- Monitoring situation.

All measures will be in line with the school's behaviour and discipline policy, and may include:

- Explanation why the inappropriate behaviour is unacceptable.
- Attempts to repair damaged relationships.
- Time away from a specific activity (maybe also include break time or lunch time).
- Meeting between staff, parents and child.
- Behaviour support plan.
- Fixed term exclusion or permanent exclusion in very extreme cases

The school will consider each case individually and will consider what course of action is most suitable in each case.

**Consultation Process**

This policy is the result of a process of consultation with the following groups from across our community:

Pupils
- All teaching staff and classroom assistants
- A small group of parents
- Members of the governing body

Through the development and implementation of this policy, YGG Cwmllynfell trusts that all pupils, parents/ carers and staff can expect to:

- Feel confident that everything is being done to make YGG Cwmllynfell a safe and secure environment.
- Know who can be contacted if they have any concerns about bullying or inappropriate behaviour of a sexual, racial or homophobic nature.
- Feel supported in reporting incidents of bullying or inappropriate behaviour.
- Be reassured that action will be taken against incidents of bullying or inappropriate behaviour.

**Accessibility/ Equal Opportunities**

We are a UNICEF Rights Respecting School and it is our role to ensure that all pupils know about their rights. These rights are designed to keep children and young people safe, healthy and happy. Our school's Accessibility Policy and Equal Opportunities Policy also positively encourages pupils, staff, parents and visitors irrespective of race, disability or gender to become active members of the school community. No individual will be

discriminated against on the grounds of race, gender, disability, religion, age or sexual orientation when investigating allegations or suspicions of bullying incidents in this school.

**Review Date**

This policy will be reviewed annually **(September 2026).** However, it may also be reviewed and amended, in consultation with all stakeholders, in the light of events or experience. In order to assess the effectiveness of this policy, variations in the number of cases reported over a period of time is recorded and results of welfare/ wellbeing questionnaires are also taken into consideration. The stakeholders of this policy are children and young people, staff, parents / carers, governors and any other organisations involved with the life of YGG Cwmllynfell.

**Pennaeth / Headteacher: ____*RA Sterl*___________________________**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors: __*C Gibala*_____________________**

**Dyddiad / Date: _12/09/2025_________________**